

05: GWEITHGARWCH CORFFOROL A CLEFYD CRONIG YR ARENNAU (CKD)

CKD - Mae'r term yma yn disgrifio grŵp o anhwylderau cynyddol ar yr arenau na ellir eu dadwneud yr amcangyfrifir sydd yn effeithio ar tua 8% o boblogaeth y DU.¹

Mae dirywiad cynyddol mewn ffwythiant arenol yn gysylltiedig â:

- Morbidrwydd a marwoldeb cynyddol
- Difetha cyhyrau
- Anaemia
- Llid systemig
- Cydafiacheddau metabolig, yn cynnwys diabetes math II a gordewdra²

Maes o law bydd lleiafrif o gleifion yn symud ymlaen i gam terfynol methiant arenol (ESRF) sydd yn golygu y byddant angen dialysis neu drawsblaniad, ond **yr achos marwolaeth mwyaf cyffredin o bell yw clefyd cardiofasgwlaidd (CVD)**.²

Mae gan gleifion â CKD^{3,4} ffitrwydd corfforol gwael a llai o allu i ymarfer corff, sydd yn uniongyrchol gysylltiedig â marwoldeb pob achos⁵. Mae lefelau gweithgaredd corfforol yn amrywio ymmsg poblogaethau CKD, gyda ~40% o gleifion nad ydynt yn ESRF yn gorffor actif, ond mae'r lefelau yn gostwng wth i'r clefyd ddatblygu ac maent ar eu hisaf ymmsg clefion ESRF sydd yn cael dialysis.⁶ Ond, mae lefelau uwch o weithgaredd corfforol amser hamdden a cherdded yn gysylltiedig â dirywiad arafach mewn ffwythiant arenol, llai o risg o therapi arenau newydd a marwoldeb^{7,8}.

Nid oes digon o astudio wedi bod ar ddefnyddio ymarfer corff wrth drin ac adsefydlu clefion o'r fath, ond erbyn hyn mae yna ddigon o dystiolaeth o fuddion ymarfer corff fel y gellir cyfeirio ati yng nghanllawiau presennol NICE ar gyfer rheoli CKD:

Mae canllawiau NICE CG182⁹ ynghylch clefyd cronig yr arenau mewn oedolion yn argymhell:

- Annog pobl â CKD i ymgymryd ag ymarfer corff, cyrraedd pwysau iach a rhoi'r gorau i ysmigu. (2008)

Mae canllawiau Sefydliad Arenau Cenedlaethol America yn cynnwys datganiad cyffelyb sydd yn annog ymarfer corff, colli pwysau a rhoi'r gorau i ysmigu mewn perthynas â CKD; ond nid oes cyngor penodol yn y canllawiau cyfredol yma ar gyfer ymarfer corff a rhagnodi gweithgaredd corfforol. Mae mwy o wybodaeth yn cael ei darparu yng nghanllawiau Deilliannau Bydeang Gwella Clefyd arenol America 2012 (KDIGO)¹⁰ ar gyfer rheoli pwysedd gwaed, sydd yn cymeradwyo gwneud ymarfer corff sydd yn "gydnaws ag iechyd a goddefiant cardiofasgwlaidd, ac anelu am o leiaf 30 munud 5 gwaith yr wythnos". Er bod canllawiau clinigol presennol ynghylch ymarfer corff o ran rheoli clefion CKD yn brin yn y DU, mae canllawiau mwy trylwyr yn gynwysedig yn y llawlyfr o Sweden, Gweithgaredd Corfforol wrth Atal a Thrin Clefydau (FYSS mewn Swedeg)¹¹

Buddion ymarfer corff mewn perthynas â CKD:

Mae data a ddaw o nifer o adolygiadau systematig a/neu ddadansoddiadau meta¹²⁻¹⁶ a threialon rheoli ar hap ac astudiaethau arbrofol¹⁷⁻²² i effaith ymarfer corff ar draws sbectrwm CKD yn adrodd am y buddion canlynol:

- Effeithiau cadarnhaol arwyddocaol ar allu i ymarfer corff yn dilyn pob math o ymarfer corff yn cynnwys aerobig ac ymarfer corff gwrthiant a wneir yn unigol neu mewn cyfuniad.
- Mwy o allu i gerdded
- Effeithiau cadarnhaol arwyddocaol buddion cardio-warchodol a lleihau ffactorau risg cardiofasgwlaidd yn cynnwys rheoli pwysedd gwaed mewn CKD nad yw'n ESRF ar ôl ymarfer corff aerobig.
- Dadwneud dirywiad cyhyrol cysylltiedig â CKD a gwelliannau o ran maint cyhyrau a chryfder ar ôl ymarfer corff gwrthiant cynyddol.
- Gwell ansawdd bywyd cysylltiedig ag iechyd ar ôl ymarfer corff aerobig a gwrthiant a wneir yn unigol neu yn gyfun
- Llai o lid systemig a marcwyr cylchredol straen ocsidiol (malondialdehyde a 4-hydroxyalkenals) ar ôl ymarfer corff aerobig

O ganlyniad i hynny, argymhellir ymarfer corff aerobig a gwrthiant oherwydd eu heffaith fuddiol unigol ar iechyd cardiofasgwlaidd a chyhyrau ysgerbydol yn y clefion yma^{23,24} sydd fel arfer yn byw bywydau eisteddog²⁵.

Rhagofalon:

Mae'r **gwrtharwyddion i ymarfer corff** absoliwt arferol yn gymwys i CKD

Gellir ystyried bod y canlynol yn rhagofalon a gwrtharwyddion penodol ar gyfer CDK^{6, 13, 24, 26, 27}:

- O ystyried mynchyder sylweddol CVD, ddatblygu claf fod â dim angina neu angina sefydlog, pwysedd gwaed a reolir yn dda a chyn lleied â phosibl o gadw hylif.
- Mae clefion â CKD yn dueddol o dioddef toriadau oherwydd eiddiledd ac anafiadau tendinoses, ac adroddir am rwygo gewynnau ohonynt eu hunain mewn CKD. Hefyd, mae problemau cyhyrysgerbydol a chymalau yn debygol o fod yn ganlyniad cyffredin i ddechrau ymarfer corff oherwydd mynchyder uchel o gydafiacheddau yn y rhan fwyaf o gleifion CKD. Felly dylid ymgorffori ymarferion hyblygrwydd ac ymestyn ynghyd â chyfnod cynhesu ac oeri hir i raglen ymarfer corff raddol.
- Dylai clefion â chlefyd polycystic yr arenau a rhai sydd wedi cael trawsblaniad arenau osgoi ymarferion gwrthdaro sylweddol oherwydd y risg o anaf mecanyseddol i'w harenau.
- Gall clefion â ffistwla ymarfer eu braich ffistwla, ond ni ddylid rhoi pwysau ar yr ardal honno.

Gwrtharwyddion penodol i CKD

1. Abnormaleddau electrolyta - yn arbennig hypo/hypercalcaemia
2. Newidiadau ECG diweddar - yn arbennig tachyarhythmias symptomatig neu brady-arhythmias
3. Ennill gormod o bwysau rhyng-ddialytig >4kg ers y sesiwn ddiyalisis ddiwethaf
4. Triniaeth dialysis ansefydlog a chynyddu meddyginaeth
5. Cyfyngiad pwmonari
6. Oedema peripherol



Royal College
of
General Practitioners



Royal College
of
Nursing



Rydym yn croesawu adborth ar y taflenni ffeithiau hyn neu am wybodaeth bellach cysylltwch â:
nicky.birkinshaw@basem.co.uk

Fersiwn 4 - Gorffennaf 2019
Dyddiad Adolygu Arfaethedig:
Rhagyr 2019

05: GWEITHGARWCH CORFFOROL A CLEFYD CRONIG YR ARENNAU (CKD)

<p>Argymhellion: Er ei bod yn bwysig cydnabod y rhagofalon, mae'r un mor bwysig cofio, yn absenoldeb gwrtharwyddion absolwi i ymarfer corff, mae'n debyg bod ymddygiad eisteddog yn achosi mwy o risgau iechyd na gwneud gweithgaredd corfforol rheolaidd o ddwyster cymedrol.²⁸</p> <p>Dylid cyngori cleifion i ymgorffori mwy o weithgaredd corfforol i'w ffordd o fyw bynnag fo hynny'n bosibl, gan gynyddu dwyster a hyd yn raddol.²⁹ Er mwyn cael mwy o welliannau o ran gallu aerobig a maint a chryfder cyhyrau, dylid annog cleifion i gynyddu i ddwyster cymedrol, ond y prif nod yw sefydlu arferiad parhaus o weithgaredd corfforol rheolaidd.</p>	<p>Mae pennu targedau afrealistig yn anfuddiol oherwydd nad yw'r claf yn debygol o ymgysylltu â rhaglen os nad oes ganddynt ddigon o hyder a ffydd yn eu gallu i lwyddo, ac mae methiant yn gallu bod yn eithriadol ddatgymhellol. Felly, er mwyn cychwyn a chynnal ymddygiad ymarfer corff yn effeithiol, mae'n bwysig gweithio gyda'r claf a'u helpu i:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ddeall buddion posibl ymarfer corff yng nghyd-destun eu iechyd a'u ffordd o fyw eu hunain • pennu nodau cyraeddadwy sydd yn ystyrlon a phriodol i'r unigolyn • llunio cynllun realistig o gamau ac ystyried ffyrdd o reoli rhwystrau posibl • monitro cynnydd a chydabod gwelliannau
<p>Neges allweddol: Mae ymarfer corff yn creu nifer o fuddion i unigolion â CKD a dylid ei ddefnyddio fel atodiad i driniaeth er mwyn rheoli a gwella nifer o'r clefydau sydd yn gysylltiedig â chydafiacheddau.</p> <p>Ystyriwch:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Archwilio eich cleifion CDK i weld a ydynt yn ymgysylltu ar hyn o bryd ag ymarfer corff neu weithgaredd corfforol. 2. Wrth ddiagnosio ac adolygu, rhoi cyngor yngylch pwysigrwydd y math yma o ffordd o fyw er eu lles eu hunain. <p>Buddion i feddygon teulu a thimau: Llai o gostau gofal iechyd, yn cynnwys cwympiadau, a cholli annibyniaeth. Oherwydd bod cleifion CKD yn tuedd i ddioddef dirywiad cyhyrol a gwendid, mae gwarchod ffwythiant corfforol yn hynod bwysig a pherthnasol, ac felly mae gan ymarfer corff priodol y potensial i leihau morbidrwydd ac i greu arbedion cost cysylltiedig.</p>	<p>Cyfeiriwch gleifion at:</p> <p>Ffederasiwn Arennau Cenedlaethol</p> <p>Ymchwil Arennau y DU</p> <p>Wedi'i dynnu o fodiwl DPP Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC/HEIW) ar weithgaredd corfforol Cymell i Symud. Rhan o raglen glinigol yr RCGP ar weithgaredd corfforol a ffordd o fyw. (Dyddiad adolygu arfaethedig Rhagfyr 2022).</p>

CYFEIRIADAU

- | | |
|---|---|
| <ol style="list-style-type: none"> 1. Stevens PE, O'donoghue DJ, De Lusignan S, et al. Chronic kidney disease management in the United Kingdom: NEOERICA project results. <i>Kidney International</i>. 2007 Jul 1;72(1):92-9. 2. Shlipak MG, Fried LF, Cushman M, et al. Cardiovascular mortality risk in chronic kidney disease: comparison of traditional and novel risk factors. <i>JAMA</i>. 2005 Apr 13;293(14):1737-45. 3. Painter P. Physical functioning in end-stage renal disease patients. <i>Hemodialysis International</i>. 2005 Jul 1;9(3):218-35. 4. Hiraki K, Yasuda T, Hotta C, et al. Decreased physical function in pre-dialysis patients with chronic kidney disease. <i>Clinical and Experimental Nephrology</i>. 2013 Apr 1;17(2):225-31. | <ol style="list-style-type: none"> 5. Roshanravan B, Robinson-Cohen C, Patel KV, et al. Association between physical performance and all-cause mortality in CKD. <i>Journal of the American Society of Nephrology</i>. 2013 Apr 30;24(5):822-830. 6. Zelle DM, Klaassen G, van Adrichem E, et al. Physical inactivity: A risk factor and target for intervention in renal care. <i>Nature Reviews Nephrology</i>. 2017 Mar 1;13(3):152-68. 7. Robinson-Cohen C, Littman AJ, Duncan GE, et al. Physical activity and change in estimated GFR among persons with CKD. <i>Journal of the American Society of Nephrology</i>. 2014 Feb;25(2):399-406. 8. Chen IR, Wang SM, Liang CC, et al. Association of walking with survival and RRT among patients with CKD stages 3-5. <i>Clinical Journal of the American Society of Nephrology</i>. 2014 Jul;9(7):1183-9. |
|---|---|



Royal College of General Practitioners



Royal College of Nursing



Rydym yn croesawu adborth ar y taflenni ffleithiau hyn neu am wybodaeth bellach cysylltwch â:
nicky.birkinshaw@basem.co.uk

Fersiwn 4 - Gorffennaf 2019
Dyddiad Adolygu Arfaethedig:
Rhagfyr 2019

05: GWEITHGARWCH CORFFOROL A CLEFYD CRONIG YR ARENNAU (CKD)

CYFEIRIADAU

9. National Institute for Health and Care Excellence. London. [Chronic kidney disease in adults: assessment and management.](#) 2014. NICE clinical guideline 182. (cited 2019 Jul 3)
10. KIDGO 2012 Clinical Practice Guideline for the Evaluation and Management of Chronic Kidney Disease. International Society of Nephrology. 2013;3(1):1-163
11. Heiwe S. Ch 32. Kidney disease (chronic) and kidney transplant. Swedish National Institute of Public Health. [Physical Activity in the prevention and treatment of disease.](#) 2010. (cited 2019 Jul 3)
12. Heiwe S, Jacobson SH. Exercise training for adults with chronic kidney disease. Cochrane Database of Systematic Reviews 2011, Issue 10. Art. No.: CD003236. DOI: 10.1002/14651858.CD003236.pub2.
13. Howden EJ, Fassett RG, Isbel NM, Coombes JS. Exercise training in chronic kidney disease patients. Sports Medicine. 2012 Jun 1;42(6):473-88.
14. Heiwe S, Jacobson SH. Exercise training in adults with CKD: a systematic review and meta-analysis. American Journal of Kidney Diseases. 2014 Sep 30;64(3):383-93.
15. Cheema BS, Chan D, Fahey P, Atlantis E. Effect of progressive resistance training on measures of skeletal muscle hypertrophy, muscular strength and health-related quality of life in patients with chronic kidney disease: a systematic review and meta-analysis. Sports Medicine. 2014 Aug 1;44(8):1125-38.
16. Barcellos FC, Santos IS, Umpierre D, et al.. Effects of exercise in the whole spectrum of chronic kidney disease: a systematic review. Clinical Kidney Journal. 2015 Oct 20;8(6):753-65.
17. Kosmadakis GC, John SG, Clapp EL, et al. Benefits of regular walking exercise in advanced pre-dialysis chronic kidney disease. Nephrology Dialysis Transplantation. 2011 Jul 27;27(3):997-1004.
18. Viana JL, Kosmadakis GC, Watson EL, et al. Evidence for anti-inflammatory effects of exercise in CKD. Journal of the American Society of Nephrology. 2014 Sep 1;25(9):2121-30.
19. Headley SA, Germain MJ, Milch CM, et al. Immediate blood pressure-lowering effects of aerobic exercise among patients with chronic kidney disease. Nephrology. 2008 Oct 1;13(7):601-6.
20. Mustata S, Groeneveld S, Davidson W, et al. Effects of exercise training on physical impairment, arterial stiffness and health-related quality of life in patients with chronic kidney disease: a pilot study. International Urology and Nephrology. 2011 Dec 1;43(4):1133-41.
21. Watson EL, Greening NJ, Viana JL, et al. Progressive resistance exercise training in CKD: a feasibility study. American Journal of Kidney Diseases. 2015 Aug 31;66(2):249-57.
22. Greenwood SA, Koufaki P, Mercer TH, et al. Effect of exercise training on estimated GFR, vascular health, and cardiorespiratory fitness in patients with CKD: a pilot randomized controlled trial. American Journal of Kidney Diseases. 2015 Mar 31;65(3):425-34.
23. Gould DW, Graham-Brown MP, Watson EL, et al. Physiological benefits of exercise in pre-dialysis chronic kidney disease. Nephrology. 2014 Sep 1;19(9):519-27.
24. Smart NA, Williams AD, Levinger I, Selig S, Howden E, Coombes JS, Fassett RG. Exercise & Sports Science Australia (ESSA) position statement on exercise and chronic kidney disease. Journal of Science and Medicine in Sport. 2013 Sep 30;16(5):406-11.
25. Beddhu S, Baird BC, Zitterkoph J, et al. Physical activity and mortality in chronic kidney disease (NHANES III). Clinical Journal of the American Society of Nephrology. 2009 Dec 1;4(12):1901-6.
26. Johansen KL. Exercise and chronic kidney disease. Sports Medicine. 2005 Jun 1;35(6):485-99.
27. Greenwood SA, Naish P, Clark R, et al. Intra-dialytic exercise training: a pragmatic approach. Journal of Renal Care. 2014 Sep 1;40(3):219-26.
28. Smith AC, Burton JO. Exercise in kidney disease and diabetes: time for action. Journal of Renal Care. 2012 Feb 1;38(s1):52-8.
29. Smith AC, Burton JO. What I tell my patients about exercise. British Journal of Renal Medicine. 2014;19(1):15-8.

Royal College of
General PractitionersRoyal College
of Nursing

Rydym yn croesawu adborth ar y
taifienni ffeithiau hyn neu am
wybodaeth bellach cysylltwch â:
nicky.birkshaw@basem.co.uk

Fersiwn 4 - Gorffennaf 2019
Dyddiad Adolygu Arfaethedig:
Rhagfyr 2019